

Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 5ed Chwefror 2025

Presennol

Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, B Jones, G Davies, R Ashton, S Evans, P Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - E Lewis

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau –

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 8fed Ionawr

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cae Cymunedol - Mae I Edwards wedi trwsio'r bocs cyflenwad trydan
2. Cyfleusterau cyhoeddus - Fuodd Tony Evans yno i ddad-blocio'r draenau
3. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Fydd hyfforddiant gan Thomas Hughes ar y 25fed o Chwefror yn y ganolfan o 6.00 tan 7.30yh. Mae diffibrilwr Pandy angen batris newydd. Rhoddwyd caniatad i I Edwards gwario hyd at £100 ar man bethau i cynal y diffibrilwyr heb gofyn i'r Cyngor ymlaen llaw
4. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
5. Baw cŵn – Mae S Reast wedi lameneiddio'r posteri ac wedi cychwyn cyflwyno nhw ar tudalen Facebook Llanbrynmair ac ar yr hysbysfyrdd
6. Polyn fflag wrth y Canolfan Cymdeithasol – Cyтынwyd i gadael y mater fod
7. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont - S Reast a F Cauley wedi cwrdd ar y safle i penderfynny sut i'w osod
8. Marwolaeth Meirion Jones – Cyтынwyd i osod plac coffadwriaethol ar wal y ganolfan. S Reast i trafod gyda Rhys Bleddyn
9. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – S Reast wedi adrodd at BT/Open Reach eto
10. Arwydd am y toiledau ar y B4518 – Cyтынwyd ar cynlluniau arwyddion i'r B4518 ac eraill i'r A470 pob pen o'r pentref
11. Grit a halen – S Reast i prynu un byncher ar gyfer Glanclegyr
12. Creu arwyddion ar gyfer y ffordd rhwng Bont a Talerddig – Cynhyrchwyd a gosodwyd nifer o arwyddion. Fydd gwirfoddolwyr o Bont a Talerddig yn cadw llygaid arnynt i sicrhau bod nhw mewn trefn
13. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – S Reast i ysgrifennu at perchennog Ael y Bryn
14. Yswiriant ar gyfer risg digidol – S Reast wedi cael cyngor gan Un Llais Cymru ond roedd hi'n anodd dod i unrhyw ganlyniad clir. Cyтынwyd gadael y mater tan fydd hi'n amser trefnu'r yswiriant am y blwyddyn nesaf a gofyn am amcangyfrif ac esboniad ychwanegol pryd hyny

15. Cyflenwad ffônau pan fydd trydan yn mynd i ffwrdd – Cyflwynwyd ateb gan swyddfa Russell George AS, nid oedd yna cymorth sylweddol i'w gael. Cyтынwyd nad oedd yna unrhywbeth y gellir y Cyngor gwneud ar hyn o bryd
16. Cyfarfod Powys Cynnaladwy – Mynychodd E Davies a S Reast y cyfarfod a cafwyd wybod am y cyfyngiadau ariannol difrifol
17. Dŵr ar Pont Grîn – S Reast i adrodd i Powys
18. Grit yn Bont a drosodd i Talerddig – Mae grit wedi cael ei rhoi ar y ffordd yn Bont
19. Rheolau ynglyn ac ymylon ffyrdd – Rhaid ystyried yr ymylon fel llwybrau cyhoeddus gyda'r hawliau perthnasol, pwy bynnag sy'n berchen arnyn nhw
20. Biniau yn y cae chwarae – Mae'r biniau yn cael eu lenwi gyda sbwriel cartref
21. Nawdd Windfall – Cynigwyd ceisio am y nawdd i creu llwybr cerdded o Lanbrynmair i Tafolwern

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont	le	Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd trwy safleoedd we OperationSnap neu GoSafe. Cynnigwyd rhoi bwan brain efo siaced 'high vis' ar ochr y ffordd
Cyflymder ceir trwy Lanbrynmair		Mae GoSafe yn cynnig rhoi hyfforddiant ac offer i gwirfoddolwyr eu ddefnyddio
Ochrau ffordd Pandy yn Bont yn disgyn	le	S Reast wedi adrodd i Powys: 22/01/25 "This will be looked at on my inspection and will be dealt accordingly"

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Dealltwyd fod gwaith ar y gweill i ailgyfeirio cyflenwad dŵr cyn i'r ail-adeiladu cychwyn. Fydd arwyneb y ffordd yn cael ei wneud yn Nhalerddig ar yr un pryd ac hefyd ymyl y ffordd rhwng Pont Bel a Glandwr
Dŵr ar y ffordd rhwng Pentremawr a Gwern y Bwlch	le	Yn cael ei arolygu gan NMWTRA
Cyflwr y ffordd dros Pont Brics	le	Anhebyg fydd hwn yn cael sylw tra fydd gwaith ar y gweill yn Nolgoch ond fydd y tyllau fwy difrifol yn cael eu lenwi

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Llan Hen Siop	le	LLN06 Caniatad ysgrifenedig wedi cael ei rhoi gan James Brunton, "executor" ewyllus y cyn perchenog

Llan	Ie	LLN05 wedi torri
------	----	------------------

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Diolch gan Ambiwylans Awyr am cyfraniad
- Parti Gardd Buckingham Palace
- Gwahoddiad i fynychu Gweithdy Hinsawdd a Natur – S Reast i ofyn am rhaglen o ddigwyddiadau

Cynllunio

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 21/01/25

Cyfrif Cyfredol	£4,039.77
Cyfrif Cadw	£2,956.56
Cyfanswm	£6,996.33
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£6,996.33

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
05/02/25	Cyflog y Clerc - Ionawr	£397.40	Cytunwyd
05/02/25	Treth ac NI ar cyflogau Ionawr	£145.40	Cytunwyd
05/02/25	S J Ashworth – Glanhau Toiledau	£184.00	Cytynwyd
05/02/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Rhagfyr a Ionawr	£220.00	Cytynwyd
05/02/25	DRE & Co – Costau PAYE	£108.00	Cytynwyd
05/02/25	Treth ar y maes parcio	£472.08	Wedi talu

Unrhyw fater arall

- Cafwyd adroddiad am pryder trigolion ynglyn a datblygiadau Network Rail i paratoi at gwaith trwsio'r rheilffordd. Dylent fod wedi cael rhybydd am y iard sydd yn cael ei ffurfio yn agos iawn at y tai.

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- B Jones – Car yn parcio ar y junction yn Nolfach

Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 5ed mis Mawrth 2025

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair